

Coleg Penybont  
Bridgend College



## **Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg**

**1 Awst 2019 - 31 Gorffennaf 2020**

**Wedi'i baratoi yn unol â gofynion Mesur Cymraeg (Cymru) 2011**

## Cynnwys

Cyflwyniad

Safonau Cyflenwi Gwasanaeth Safonau

Safonau Llunio Polisi

Safonau Gweithredol

Monitro Cydymffurfiad

Cwynion

Sgiliau Iaith Cymraeg y Staff

Hyfforddiant

Llenwi Swyddi Gwag

Gwybodaeth Bellach

## Cyflwyniad

Hwn yw ail Adroddiad Monitro Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg. Ers 1af Ebrill 2018 mae'r Safonau Iaith Gymraeg wedi cymryd lle Cynllun Iaith y Coleg. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gweithgaredd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Awst 2019 a 31 Gorffennaf 2020.

Mae Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu addysg bellach, addysg uwch a dysgu yn y gwaith i fwy na 6000 o ddysgwyr amser llawn a rhan-amser, ac mae'n cyflogi dros 650 aelod o staff ar draws pedwar campws ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Maesteg, Pencoed a Queen's Road. Mae coleg Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn gwasanaethu ei ddysgwyr trwy gynnis ystod eang o gyrsiau, o gyn-fynediad i lefel gradd, mewn dros 20 o feysydd galwedigaethol.

Mae cenhadaeth y Coleg, sef 'Byddwch yn Bopeth y Gallwch Fod', wrth wraidd diwylliant y sefydliad. Mae'n berthnasol i bob dysgwr a phob aelod staff, ac yn llywio uchelgais i barhau i wella ac arloesi. Ers lansiad Safonau'r Gymraeg ym mis Ebrill 2018, mae Coleg Penybont wedi mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys gweithredu'r ymgyrch #maegenihawl sy'n mynd rhagddo er mwyn hybu hawliau'r myfyrwyr.

Cyflenwyd calendr llawn gweithgareddau cyfoethogi'r Gymraeg yn ystod 2019-2020, a gwelwyd dros 1,500 o fyfyrwyr yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn trwy gydol y flwyddyn. Cynhaliwyd gweithgareddau wyneb yn wyneb rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020. Cynigiwyd cyfres o weithgareddau ar-lein rhwng Ebrill a Mehefin 2020 yn ystod y cyfnod cloi COVID19.

## Cyd-destun Lleol

Yn y Cyfrifiad yn 2011, dywedodd 9.7% o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

<https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/121211sb1182012en.pdf>

Yn ôl arolwg mwy diweddar, Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Gorffennaf 2018 i Mehefin 2019, mae 15% o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn siarad Cymraeg – un o'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

<https://llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-gorffennaf-2018-i-mehefin-2019>

Ysgol Gyfun Llangynwyd ger Maesteg yw'r unig ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae ganddi bedair ysgol fwydo, sef Ysgol Bro Ogwr (Pen-y-bont), Ysgol y Ferch o'r Sgêr (Corneli), Ysgol Cynwyd Sant (Maesteg), ac Ysgol Calon y Cymoedd (Betws). Mae yna 10 ysgol gyfun cyfrwng Saesneg a 46 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn y fwrdeistref sirol.

Mae tua 10% o fyfyrwyr Coleg Penybont wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws de-ddwyrain Cymru.

## Safonau Cyflenwi

Mae adran 'Popeth Cymraeg' hollol ddwyieithog ar gael ar fewnwyd y staff er mwyn hyrwyddo a hwyluso gweithrediad Safonau Cyflenwi Gwasanaeth. Mae'r dudalen yn cynnwys adrannau sy'n rhoi cymorth gyda gosod llofnodion e-bost dwyieithog, geiriau Cymraeg bob dydd, pecyn meddalwedd Cysgliad, a Safonau'r Gymraeg.

Mae gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg yn cael ei chynnwys ym mhob un o friffiau'r Pennaeth i'r staff, a thrwy gyfarfodydd gweithredu'r Coleg ar draws y strwythur uwchreoli.

Hysbysebwyd cyfeiriad e-bost, [safonaugymraeg@bridgend.ac.uk](mailto:safonaugymraeg@bridgend.ac.uk) / [welshlanguagestandards@bridgend.ac.uk](mailto:welshlanguagestandards@bridgend.ac.uk) ar borth y staff fel bod aelodau staff yn gallu anfon unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r safonau. Derbyniwyd cyfanswm o 588 o negeseuon rhwng 01/08/19 - 31/07/20, ac ymatebwyd i'r rhain o fewn 3 diwrnod ar gyfartaledd.

Mae gwybodaeth ynglŷn â Safonau'r Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y pecyn cynefino a roddir i bob aelod staff newydd. Fel rhan o'r sesiynau cynefino staff newydd, rhoddwyd cyfarwyddiadau i staff ynghylch templedi llofnod e-bost y Coleg. Gofynnwyd i bob aelod staff ddewis templedi perthnasol yn ôl ei statws, h.y. siarad Cymraeg, dysgu Cymraeg, neu di-Gymraeg.

Mae dogfen gyngor cam wrth gam ar gael ar borth y staff, sy'n rhoi cyfarwyddiadau ar sut i osod llofnod e-bost a 'neges allan o'r swyddfa' dwyieithog. Rhoddwyd cortynnau gwddf â'r symbol Cymraeg Gwaith oren arnynt i aelodau staff Cymraeg eu hiaith. Ym mis medi 2018, cyflwynodd y Coleg gynllun tebyg ar gyfer staff sy'n dysgu Cymraeg, gan ddsbarthu cortynnau gwddf â'r symbol oren a'r gair 'DYSGWR' arnynt.

Mae ymgeiswyr newydd yn cael cyfle i ddewis ym mha iaith yr hoffent dderbyn gohebiaeth oddi wrth y Coleg ar yr adeg a wneir y cais. Adeg cofrestru â'r Coleg, mae myfyrwyr Cymraeg yn cael cardiau ID a chortynnau gwddf sydd â'r symbol 'Cymraeg Gwaith' oren arnynt. Mae hyn yn golygu y gellir adnabod myfyrwyr Cymraeg eu hiaith cyn iddynt gychwyn eu teithiau yn y Coleg. Mae hyn hefyd yn eu helpu nhw i adnabod myfyrwyr Cymraeg eraill a staff Cymraeg fel eu bod yn gallu cyfathrebu â nhw yn eu hiaith ddewisol.

Mae myfyrwyr yn derbyn llyfryn dwyieithog am fywyd yn y Coleg, sy'n cynnwys adran am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r llyfryn hefyd yn cynnwys y 10 hawl iaith mwyaf perthnasol y tynnwyd sylw atynt yn ymgyrch 'Mae Gen i Hawl' Comisiynydd y Gymraeg. Fel rhan o raglen gynefino'r myfyrwyr, crëwyd a dangoswyd fideo croesawu a oedd yn amlygu gwasanaethau allweddol i fyfyrwyr. Roedd y fideo'n cynnwys siaradwyr Cymraeg a Saesneg, ac yn rhoi gwybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngholeg Penybont.

Caiff pob darn o wybodaeth argraffedig, h.y. dogfennau, ffurflenni, posteri ac ati, ei ddarparu'n ddwyieithog.

Mae staff a myfyrwyr yn gallu cael mynediad at wasanaeth cyfieithu mewnol sy'n cynnwys cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg, gwasanaeth prawffddarllen, a chyngor a chyfarwyddyd am sut i lunio dogfennau dwyieithog, e.e. cyflwyniadau, posteri, taflenni i fyfyrwyr, a nodiadau.

Mae galwadau ffôn i'r Coleg yn cael eu derbyn yn ganolog gan ein tîm Gwasanaethau Myfyrwyr. Mae staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ateb y ffôn gyda chyfarchion dwyieithog. Mae cerdyn cymorth ynganu wedi cael ei ddsbarthu i bob aelod staff. Mae staff yn gallu trosglwyddo galwadau i gydweithwyr sy'n siaradwyr Cymraeg hyderus pan fydd galwyr yn dweud eu bod yn dymuno parhau â'r galwad yn Gymraeg. Mae pob aelod o'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn derbyn hyfforddiant Cymraeg naill ai trwy'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion neu trwy ein cyrsiau mewnol teilwredig sy'n ceisio datblygu sgiliau Cymraeg staff er mwyn ymdrin â myfyrwyr, staff ac ymwelwyr.

Mae gwefan y Coleg yn hollol ddwyieithog.

Cyfnod Clo - Mawrth 2020

Bu'n rhaid atal dyletswyddau wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod clo cychwynnol ym mis Mawrth 2020 gan nad oedd modd caniatáu ymwelwyr ar y safle. Trosglwyddwyd holl ddyletswyddau'r dderbynfa i staff oedd yn gallu gweithio o bell. Parhaodd yr holl wasanaethau yn Gymraeg trwy gydol y cyfnod clo.

Yn ystod y cyfnod clo, roedd y system ffôn (Shoretel) yn gwbl weithredol ac yn hygyrch i'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr a oedd yn gweithio gartref. Roedd Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gymraeg neu aelod arall o Tîm Cymraeg ar gael i ddelio â galwadau gan siaradwyr Cymraeg.

Bu'n rhaid atal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Parhaodd cyfarfodydd un i un ar-lein a thros y ffôn a pharhaodd staff a dysgwyr Cymraeg i gyfathrebu yn Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn. Ni dderbyniodd y coleg unrhyw geisiadau i gael cyfarfodydd unigol trwy gyfrwng Cymraeg.

Cynhaliodd y Tîm Cymraeg gyfarfodydd anffurfiol wythnosol yn Gymraeg i staff a myfyrwyr. Gwelwyd cynnydd yn nifer y staff a gymerodd ran yn y cyfarfodydd hyn o gymharu â chyfarfodydd wyneb yn wyneb tebyg a gynhaliwyd cyn y cyfnod clo. Roedd gwasanaeth Cymraeg ar gael mewn digwyddiadau i'r cyhoedd. Er enghraifft, roedd Ystafell Sgwrsio Gymraeg ar gael yn ystod Digwyddiad Diwrnod Agored Rhithwir cyntaf y coleg. Roedd y cyfranogwyr yn gallu cymryd rhan mewn sesiynau holi ac ateb byw trwy gyfrwng y Gymraeg.

Parhawyd i gynhyrchu'r holl ddogfennau yn ddwyieithog yn ystod y cyfnod clo. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd cyfieithydd llawn amser y coleg yn gallu ymateb i geisiadau brys. Ar yr ychydig achlysuron pan nad oedd y cyfieithydd ar gael (e.e. ar wyliau) roedd y Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gymraeg yn gallu ymgymryd â phob cais brys am gyfieithiadau.

Roedd gwefan y coleg ar gael yn Gymraeg trwy gydol y cyfnod clo. Daeth y coleg yn ymwybodol bod angen diwygio a phrawfddarllen ymhellach ar rai o'r tudalennau Cymraeg. Gweithredwyd hyn gan y tîm Marchnata.

Roedd y cyfleuster ymgeisio a chofrestru ar-lein ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Parhaodd yr holl ohebiaeth cyfryngau cymdeithasol i fod yn Gymraeg a Saesneg trwy gydol y cyfnod clo. Penododd y coleg Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol newydd yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ymgeisydd llwyddiannus yn siaradwr Cymraeg rhugl a lwyddodd i barhau i ddarparu negeseuon ar draws y Cyfryngau Cymdeithasol yn Gymraeg.

## **Safonau Llunio Polisi**

Mae proses hunanasesu cadarn ar waith yn y Coleg, sy'n gofyn i staff wneud sylwadau a gwerthuso datblygiad y ddarpariaeth a gwasanaethau Cymraeg. Yn ogystal, mae'r Coleg yn gweithredu proses hunanasesu ac arolygu mewnol drwyadl, sy'n cynnwys asesu cynnydd y Gymraeg/dwyieithrwydd ym mhob maes astudio.

Defnyddir offeryn Asesiad Effaith wrth ysgrifennu a diwygio polisiâu. Mae'r offeryn Asesiad Effaith yn galluogi'r awdur i adnabod problemau ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg, a chynaliadwyedd. Mae pob polisi newydd a diweddaedig yn ddarostyngedig i gyfnod ymgynghori. Caiff y wybodaeth yma ei chyhoeddi yn Gymraeg ar fewnwyd y Coleg.

Mae'r holl wybodaeth ynglŷn â'r grantiau sydd ar gael i fyfyrwyr yn cael ei darparu yn Gymraeg, gan gynnwys y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

Cyfnod Clo Mawrth 2020

Roedd unrhyw bolisi newydd a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod clo yn ddarostyngedig i ganllawiau a phrotocolau'r coleg. Roedd hyn yn cynnwys cynllun manwl asesu effaith cydraddoldeb i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **Safonau Gweithredol**

Mae'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Taith y Dysgwr wedi creu dogfen sy'n amlinellu ymrwymiad y Coleg i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae pob polisi newydd y Coleg ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Ni chaiff polisiâu newydd a pholisiâu diwygiedig eu rhannu'n fewnol neu'n allanol os nad ydynt ar gael yn y ddwy iaith. Cafodd rai o'r polisiâu cyfredol eu cyfieithu yn ystod y misoedd cychwynnol ar ôl i'r Safonau ddod i rym.

Mae dogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r broses recriwtio ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Taith y Dysgwr wedi gweithio gyda LinguaSkin i sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad at y system Adnoddau Dynol mewnol (iTrent) trwy gyfrwng y Gymraeg.

## **Monitro Cydymffurfiad**

Mae Joe Baldwin, Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Taith y Dysgwr, a Carys Swain, Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gymraeg, yn gyfrifol am ddatblygiad y Gymraeg yn y Coleg. Simon Pirote, y Pennaeth a Phrif Weithredwr, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli, gyda chefnogaeth Joe Baldwin a Carys Swain.

Mae'r Safonau wedi'u cynnwys fel rhan o gylch archwilio allanol Coleg Penybont. Y llynedd comisiynodd Coleg Penybont gwmni RSM i gynnal archwiliad mewnol o'i gydymffurfiad â'i ddyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg.



Eleni parhaodd y Coleg i archwilio, monitro ac adolygu cynnydd yr holl Safonau Iaith Gymraeg yn fewnol.

Mae gan Goleg Pen-y-bont ar Ogwr bedwar grŵp o staff sy'n cyfrannu at archwilio, monitro ac adolygu datblygiadau Cymraeg a dwyieithog ar draws y coleg:

- Grŵp Llywio'r Iaith Cymraeg (WLSG) sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Uwch Dîm Arwain (UDA), AD, Marchnata, TG, Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Cwricwlwm
- Tîm Darpariaeth Cwricwlwm (CDT) sy'n cynnwys Penaethiaid Cwricwlwm, yr holl Reolwyr Maes Cwricwlwm a chynrychiolwyr o feysydd cymorth busnes fel Cyfarwyddwr Pobl, Gwasanaethau Myfyrwyr, Systemau Gwybodaeth, Marchnata a'r Pennaeth
- Grŵp Gweithredol y Coleg (COG) sydd yn cynnwys holl reolwyr y coleg
- Criw Cymraeg (Tîm Cymraeg) sy'n cynnwys Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gymraeg, Arweinydd Prosiect Cymraeg Gwaith, Cyfieithydd y Gymraeg, Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol a Chynghorydd Canolfan Llwyddiant

Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gymraeg yn sicrhau bod hapwiriadau yn cael eu cynnal ar a bob tymor. Ymchwilir i unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio. Cysylltir â'r rheolwr perthnasol a'i wneud yn ymwybodol o'n hymrwymiad o fewn Safonau'r Gymraeg. Lle bo angen, mae'r Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gymraeg yn gweithio gydag unigolion ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â materion sy'n codi.

Mae Rheolwyr eraill sy'n siarad Cymraeg yn monitro ac yn gwirio gwasanaethau cyfrwng Cymru ar draws y Coleg yn rheolaidd - e.e. trwy wneud galwadau ffôn i amrywiol gampysau i sicrhau bod staff yn defnyddio cyfarchion dwyieithog wrth ateb y ffôn, gwirio bod yr holl negeseuon 'allan o'r swyddfa' yn ddwyieithog ac ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gyfleoedd iddynt ddefnyddio eu Cymraeg yn y Coleg.

Cofnodir unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio, rhoddir gwybod i'r Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gymraeg i'w hymchwilio ymhellach.

Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gymraeg yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd â phartneriaid megis Grŵp Cynllunio Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Grŵp Llywio Cyfalaf y Gymraeg, Grŵp Llywio Ôl 16 Y Coleg Cymraeg, Bwrdd Academiaidd Y Coleg Cymraeg, Grŵp Datblygu Dwyieithrwydd Ôl 16 Llywodraeth Cymru, a'r Fforwm Sirol (a gadeirir gan Fenter Bro Ogwr, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob ysgol cyfrwng Cymraeg, cymdeithasau a sefydliadau Cymraeg megis Mudiad Meithrin a'r Urdd). Trwy gyfathrebu â'r grwpiau hyn yn rheolaidd, anogir siaradwyr Cymraeg i ofyn am wasanaethau Cymraeg yn y Coleg. Petai unrhyw unigolyn sy'n cysylltu â'r Coleg yn digwydd profi gwasanaeth uniaith, cânt eu hannog i gysylltu â thîm y Gymraeg ar unwaith fel y gellir cymryd camau priodol i fynd i'r afael â hyn. Mae unrhyw dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei chyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain, Grŵp Cyflenwi'r Cwricwlwm, a Grŵp Gweithredol y Coleg. Bydd y Rheolwr Gwasanaethau

Myfyrwyr a'r Gymraeg yn creu cynllun gweithredu, a chaiff pob pwynt gweithredu ei fonitro'n agos.

### Cyfnod Clo Mawrth 2020

Parhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gymraeg i gyflawni dyletswyddau trwy weithio o bell. Parhaodd cyfarfodydd yn Gymraeg gyda staff a myfyrwyr. Parhawyd i ddarparu dosbarthiadau Cymraeg Gwaith ar-lein a pharhawyd â gweithgareddau anffurfiol o bell.

Llwyddodd Cyfieithydd Cymraeg llawn amser y coleg i barhau i gynnig gwasanaeth arferol trwy weithio gartref.

Rhodddwyd gwybod i'r Uwch Dîm Arwain a Grŵp Llywio Cymraeg y Coleg am yr holl negeseuon a rannwyd gan y Comisiynydd. Roedd hyn yn cynnwys dogfen ganllawiau 'Rheoleiddio'r Gymraeg Covid 19' a ryddhawyd ar 17 Mawrth.

Parhaodd Grŵp Llywio'r Gymraeg i fonitro cydymffurfiad cyffredinol â Safonau Iaith Cymraeg y Coleg trwy gydol y cyfnod clo.

### **Cwynion**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch gwasanaethau Cymraeg rhwng 1 Awst 2019 a 31 Gorffennaf 2020.


Mae gweithdrefn gwyno o'r enw 'Eich Llais' yn galluogi myfyrwyr i gyflwyno unrhyw gwynion am fywyd myfyrwyr yng Ngholeg Penybont.

## Sgiliau Cymraeg Staff

Nid yw 71 o aelodau staff Coleg Penybont wedi llenwi'r adran 'sgiliau Cymraeg' ar MyPage. Mae'r tîm Adnoddau Dynol wedi diwygio'r broses recriwtio i sicrhau bod y wybodaeth yma'n cael ei chasglu wrth i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau am swyddi gwag. Bydd hyn yn sicrhau y bydd sgiliau Cymraeg aelodau staff newydd bob amser yn hysbys yn y dyfodol.


Gweler Tabl 1 ar dudalen 13 i gael allwedd ar gyfer y sgôr cymhwysedd.

Ability to Understand Welsh Conversations



Sgôr Cymhwysedd	Y gallu i ddeall sgysiau Cymraeg
0	313
1	275
2	66
3	34
4	18
5	49
Ni ddarparwyd gwybodaeth	71


### Ability To Read Welsh



● Score 0 ● Score 1 ● Score 2 ● Score 3 ● Score 4 ● Score 5 ● Not Completed


Sgôr Cymhwysedd	Yn gallu darllen Cymraeg
0	309
1	277
2	64
3	35
4	30
5	40
Ni ddarparwyd gwybodaeth	71

## Able to Verbally Communicate in Welsh



Sgôr Cymhwysedd	Yn gallu cyfathrebu ar lafar yn Gymraeg
0	327
1	283
2	50
3	24
4	28
5	43
Ni ddarparwyd gwybodaeth	71

## Able to Write in Welsh



Sgôr Cymhwysedd	Yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg
0	401
1	220
2	50
3	28
4	24
5	32
Ni ddarparwyd gwybodaeth	71

**TABL 1 – DISGRIFYDDION LEFEL SGILIAU CYMRAEG**

	<b>GWRANDO</b>	<b>DARLLEN</b>	<b>SIARAD</b>	<b>YSGRIFENNU</b>
<b>Lefel 5</b>	Yn gallu deall pob sgwrs sy'n cynnwys gwaith	Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy'n cynnwys gwaith	Rhugl - yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig o amser lle bo angen	Medrus - yn gallu cwblhau gwaith ysgrifenedig cymhleth heb yr angen am adolygiad.
<b>Lefel 4</b>	Yn gallu dilyn mwyafrif y sgyrsiau sy'n cynnwys gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp.	Yn gallu darllen mwyafrif y deunydd yn eich ardal eich hun.	Yn gallu siarad yr iaith yn y mwyafrif o sefyllfaoedd gan ddefnyddio rhai geiriau Saesneg.	Yn gallu paratoi mwyafrif y deunydd ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â'r ardal, gyda rhywfaint o gymorth o ran adolygu.
<b>Lefel 3</b>	Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy'n cynnwys gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl.	Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur.	Yn gallu sgwrsio â rhywun arall, gyda pheth petruster, ynghylch materion gwaith arferol.	Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygu.
<b>Lefel 2</b>	Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg	Yn gallu darllen deunydd sylfaenol sy'n cynnwys gwaith (yn araf).	Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â gwaith.	Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth.
<b>Lefel 1</b>	Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg ("Ble Mae ...?"; "Ga i siarad â ..?")	Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol ee arwyddion neu nodiadau byr a syml.	Yn gallu cynnal sgwrs gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd)	Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol - "Diolch am y hawl. Se map gopi o'r "
<b>Lefel 0</b>	Dim sgiliau Cymraeg o gwbl	Dim sgiliau Cymraeg o gwbl	Dim sgiliau Cymraeg o gwbl	Dim sgiliau Cymraeg o gwbl

## Hyfforddiant

Mae Coleg Penybont wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau ieithyddol yr holl staff ymhellach. Anogir pob aelod o staff i fynychu dosbarthiadau Cymraeg. Lle bo'n bosibl, gosodir staff sy'n dysgu Cymraeg i weithio'n ochr yn ochr â staff o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ymhellach. Targedir datblygu a gwella sgiliau Cymraeg aelodau staff fel a ganlyn:

- Staff addysgu - gall staff gael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg wedi'i theilwra trwy'r prosiect Colegau Cymru 'Cymraeg Gwaith'.
- Staff rheng flaen a staff sy'n delio â'r cyhoedd yn ddyddiol - cynigir amrywiaeth eang o gyrsiau Cymraeg i Oedolion a chysiau Say Something in Welsh trwy gydol y flwyddyn, pob un yn ddi-dâl.

### Cymraeg Gwaith

Cymerodd 24 aelod o staff ran yn y prosiect gydag 20 aelod o staff yn cwblhau 120 awr. Cariodd 12 allan o'r 20 aelod o staff ymlaen o 18/19 a recriwtiwyd 8 aelod ychwanegol o staff gan ddefnyddio argymhelliad ar lafar, hyrwyddo o fewn yr adran a gohebiaeth gan AD.

Cafodd y prosiect ei strwythuro fel a ganlyn:

- Dosbarth wythnosol (1, 1.5 neu 2 awr)
- sesiynau 1-1 gyda'r tiwtor
- Tasgau cymorth / gwaith cartref ychwanegol ar Ddosbarth Google
- Arsyllwadau Dosbarth fel rhan o'r cynllun Trioglau Dysgu

Eleni, cynigiwyd dosbarthiadau ar lefelau Mynediad (Mynediad), Sylfaen 1 (Sylfaen 1) a Sylfaen 2 (Sylfaen 2) yn dilyn y Fframwaith Cymraeg i Oedolion Cenedlaethol.

Rhwng Awst 2019 a Gorffennaf 2020, mynychodd 5 aelod o staff gyrsiau Cymraeg i Oedolion eraill.

Mae'r Tîm Cymraeg yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad pellach i staff sy'n dymuno gwella a gwella eu sgiliau Cymraeg.

Ar hyn o bryd mae'r Tîm AD yn y broses o hwyluso sgysiau blwch i reolwyr ar recriwtio, rheoli perfformiad, cwyno ac aflonyddu. Cyflwynwyd y sesiynau hyn trwy gyfrwng y Saesneg. Gellir gofyn iddynt yn Gymraeg os oes angen. Mae'r holl bolisiâu a chanllawiau rheolwyr ar gael i'r holl staff yn Saesneg ac yn Gymraeg.



## Cyfnod Clo Mawrth 2020


Parhawyd i ddarparu dosbarthiadau Cymraeg Gwaith a Chymraeg i Oedolion ar-lein a pharhawyd â gweithgareddau anffurfiol o bell.

### Recriwtio i Swyddi Gwag

Rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020 roedd tua 933 o ymgeiswyr. Isod mae dadansoddiad o sgiliau iaith Cymraeg yr ymgeiswyr hynny a wnaeth gais am rôl yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr.

	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Cymraeg - Gwranddo	463	294	58	11	23	84	933
Cymraeg - Darllen	453	305	52	14	24	85	933
Cymraeg - Siarad	479	296	43	18	23	74	933
Cymraeg - Ysgrifennu	557	229	34	18	30	65	933

### Welsh Language Skills for Applicants



## Cyfnod Clo Mawrth 2020

Aseswyd unrhyw swydd wag newydd a grëwyd yn ystod y cyfnod clo fel rhan o'n cydymffuriad â'r Safonau. Cynhaliwyd cyfweiliadau o bell ac mae enghreifftiau o gyfweiliadau a gynhaliwyd yn Gymraeg ar gyfer swyddi lle ystyriwyd bod y Gymraeg yn hanfodol e.e. cafodd 3 ymgeisydd eu cyfweld yn Gymraeg ar gyfer swydd Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol a chafodd 3 ymgeisydd eu cyfweld yn Gymraeg ar gyfer rôl prentisiaeth yn yr adran Adnoddau Dynol.

## **Gwybodaeth Bellach**

Mae Coleg Penybont yn croesawu unrhyw sylwadau a / neu ymholiadau ynglŷn â'r adroddiad hwn. Cysylltwch â:

Carys Swain  
Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gymraeg  
Coleg Penybont  
Heol y Bont-faen  
Pen-ybont ar Ogwr  
CF31 3DF

01656 302302 estyniad 330

[cswain@bridgend.ac.uk](mailto:cswain@bridgend.ac.uk)